

**GALWAD**

# **CYFATHREBU HEB EIRIAU**

**GWEITHGAREDD AWYR AGORED I  
ARCHWILIO SUT RYDYM YN  
CYFATHREBU GAN GYMRYD  
YSBRYDOLIAETH O FYD NATUR**



Eco-Schools



# Gwybodaeth gefndir

---

Mae Cymru wedi ymrwymo i ddod yn Genedl Noddfa ac mae ganddi hanes hir o gefnogi pobl o bob rhan o'r byd i elwa ar eu sgiliau a'u diwylliant a gwella cymdeithas Cymru.

Wrth i bwysau Newid Hinsawdd arwain at gynnydd mewn mudo, mae ein cymunedau yn debygol o ddod yn lleoedd mwy amrywiol i fyw ynddynt. Fodd bynnag, nid yw pob diwylliant yn cyfathrebu yn yr un ffordd, a hynny o ran yr iaith a ddefnyddir ac yn rhai o'r ystumiau ac iaith y corff.

Mae sicrhau ein bod yn gallu cyfathrebu â'n gilydd yn gofyn am feddwl yn greadigol a gall syniadau arloesol newydd arwain y ffordd yr ydym yn rhyngweithio fel cymuned yn y dyfodol – efallai y bydd natur yn rhoi rhai atebion o ran y ffordd orau o wneud hyn.

Mae'r gweithgaredd hwn yn gêm awyr agored hwyliog syml sy'n herio dysgwyr i ddod o hyd i ffyrdd arloesol o gyfathrebu, gan ddefnyddio gwenyn mêl fel ysbrydoliaeth.

Mae gwenyn mêl yn casglu neithdar a phaill o flodau ac yn cydweithio i greu mêl sef eu ffynhonnell fwyd. Wrth wneud hynny maent yn cyflawni rôl hanfodol fel peillwyr i ystod eang o blanhigion. Mae'r holl wenyn mêl yn bryfaid cymdeithasol a chydweithredol ac yn gweithio gyda'i gilydd i gasglu bwyd. Maen nhw'n ceisio dod o hyd i'r swm mwyaf o baill a neithdar yn yr amser lleiaf posibl.



---

Gall gwenyn hedfan hyd at 3 milltir i gael bwyd. Gall nythfa fawr hedfan yr un pellter o'r Ddaear i'r Lleuad bob dydd.



---

Mae dros 7,150 o ieithoedd yn cael eu siarad gan bobl ar draws y byd ar hyn o bryd



---

Yn gyffredinol, mae anifeiliaid yn cyfathrebu gan ddefnyddio pedwar dull: gweledol, clywedol, cyffyrddol a chemegol.

Mae gan rai blodau fwy o baill a neithdar nag eraill, felly mae gwenyn wedi datblygu ffordd o gyfathrebu ble mae'r blodau gorau i wenyn eraill yn y cwch gwenyn. Mae eu cyfathrebu yn seiliedig ar symudiadau dawn. Mae eu dawn Ysgwyd yn galluogi gwenyn i gyfleu gwybodaeth gymhleth i'w gilydd ynghylch cyfeiriad a phellter lleoliad clwt blodau. Gweler y [Ddawns Ysgwyd anhygoel yn y fideo BBC hwn \(youtube.com\)](#)

## Gweithgaredd

Cyn dechrau'r gweithgaredd, trafodwch sut rydyn ni'n cyfathrebu â'n gilydd. Mae arbenigwyr yn awgrymu bod 60% o'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu yn cael ei wneud heb eiriau, felly yn nhôn ein llais, iaith ein corff ac ymadroddion wyneb.

Gyda hyn mewn cof, a yw'n bosibl cyfathrebu'n effeithiol heb eiriau? Meddyliwch am bobl sy'n F/fyddar, neu rywun nad yw'n siarad neu'n ddi-eiriau; gallant gyfathrebu o hyd ond mewn ffordd wahanol.

Meddyliwch sut y gallem gyfathrebu â rhywun sy'n siarad iaith wahanol. Sut arall allech chi gyfleu neges groesawgar heb ddefnyddio geiriau?

Mae'r rhan fwyaf o rywogaethau ym myd natur wedi datblygu ffordd o gyfathrebu'n effeithiol heb eiriau. I archwilio hyn ymhellach gallwn gael rhywfaint o ysbrydoliaeth gan y wenynen fêl:

- Mewn man awyr agored addas ar gyfer symud o gwmpas yn rhydd, gosodwch gyfres o 10 bicer (neu unrhyw gynhwysydd tebyg) o amgylch y man chwarae, pellter da oddi wrth ei gilydd. Os gellir cuddio rhai o olwg amlwg (ee y tu ôl i goeden, mewn glaswellt hirach) mae hynny'n gwneud y gêm yn fwy diddorol. Eich blodau chi yw'r biceri hyn.
- Arllwyswch ychydig o ddŵr ym mhob blodyn - mae hyn yn cynrychioli neithdar y blodyn. Ychwanegwch symiau gwahanol i bob blodyn, gan gynnwys gadael rhai blodau'n sych.
- Rhannwch y disgyblion yn dimau cyfartal ar hyd llinell gychwyn. Yn ddelfrydol trefnwch y timau i fyny fel nad ydynt yn wynebu'r ardal lle mae'r blodau - ni allant weld i ble mae eu cyd-aelodau yn mynd ac yn lle hynny mae angen iddynt gyfathrebu'r holl wybodaeth sydd ei hangen. Mae'r disgyblion yn sefyll y tu ôl i'w gilydd yn eu timau gyda bicer mwy yn y blaen – y bicer hwn yw eu pot casglu (eu cwch gwenyn). Mae gan bob tîm hefyd lwy fwrdd (neu bibed plastig os yw'n well gennych).

- Yr her yw i bob tîm anfon un person allan ar y tro i gasglu dŵr (y neithdar) o'r biceri (y blodau) gan ddefnyddio eu llwyau neu bibedau. Unwaith y bydd aelod o'r tîm wedi dychwelyd o gasglu neithdar a'i roi yn y pot casglu, mae'r aelod tîm nesaf yn mynd allan, mewn arddull cyfnewid. Mae'r gêm yn para cyhyd ag y dymunwch, ond mae tua phum munud yn gweithio'n dda.
- Y tîm buddugol yw'r tîm sydd wedi casglu'r mwyaf o neithdar yn eu potiau casglu (gellir mesur hyn â silindr mesur, neu drwy fesur dyfnder dŵr gan ddefnyddio pren mesur).

Yn naturiol bydd aelodau'r tîm sydd wedi bod allan yn casglu neithdar eisiau trosglwyddo gwybodaeth i aelodau eu tîm ynglŷn â pha flodau sydd â'r mwyaf o ddŵr, pa rai sy'n sych ac ati fel nad yw'r tîm yn gwastraffu amser yn ymweld â'r blodau gydag ychydig yn unig / dim neithdar.

Dyma lle mae'r her gyfathrebu yn dod i mewn - esboniwch nad yw'r timau'n cael siarad yn ystod y gêm, ac yn lle hynny mae'n rhaid iddyn nhw feddwl am eu dull cyfathrebu eu hunain i esbonio i'w gilydd pa flodau sydd orau i ymweld â nhw. Bydd angen symudiadau arnynt ar gyfer Gogledd/Dwyrain/De/Gorllewin (neu Ymlaen/Chwith/Dde/Yn ôl), ac egluro pellter i ffwrdd.

Gellir defnyddio esboniad o sut mae gwenyn yn cyfathrebu â'i gilydd trwy'r Ddawns Ysgwyd fel ysbrydoliaeth, ond gadewch i'r disgyblion feddwl am eu strategaethau cyfathrebu eu hunain.

Gallwch ddechrau trwy ganiatáu siarad i ddechrau ac yna symud ymlaen at yr her gyfathrebu neu fynd yn syth at y fersiwn dim siarad, yn dibynnu ar eich disgyblion. Yn ogystal â'r tîm buddugol yn casglu'r mwyaf o neithdar, gellir llongyfarch y timau ar y sgiliau cyfathrebu gorau, y dechneg gyfathrebu fwyaf diddorol ac ati.

### **Amrywiadau ar y gêm**

Yn lle bod y biceri blodau yn dal dŵr, gallant ddal cardiau o liwiau gwahanol (pob blodyn yn dal lliw gwahanol a rhai heb ddim) ac mae'n rhaid i dimau gasglu saith lliw yr enfys. Mae angen iddynt gyfathrebu â'i gilydd ynghylch pa flodyn i fynd ato i gasglu lliw arbennig heb siarad - dyna'r her.

Er mwyn cynyddu anhawster y gêm, cuddiwch y blodau mewn mannau anoddach.

## **Myfyrrio**

Unwaith y bydd y gêm wedi gorffen, trafodwch gyda'r disgyblion pa rannau o gyfleu eu negeseuon oedd yn hawdd a pha rai oedd yn fwy heriol. Oedd hi'n fwy rhwystredig bod y cyfathrebwr neu'r person oedd yn derbyn y neges?

Pa sgiliau oedd angen i'r tîm eu defnyddio er mwyn gwneud eu cyfathrebu'n effeithiol?

A allem ddefnyddio'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu i gefnogi pobl nad ydynt efallai'n siarad Cymraeg neu Saesneg fel eu hiaith gyntaf neu nad ydynt efallai'n siarad o gwbl?

## Cysylltiadau â'r cwricwlwm

---

### Dibenion

- Dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd.
- Cyfranwyr mentrus, creadigol
- Unigolion iach, hyderus

### MDPh a datganiadau Beth sy'n Bwysig

#### Y Dyniaethau

- Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredu dynol.
- Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac amrywiol, ac yn cael eu siapio gan weithredoedd a chredoau dynol.

#### Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Mae ieithoedd yn ein cysylltu

## Nodau Byd-eang

---



Nod 5: Cydraddoldeb Rhyw

Nod 15: Bywyd ar y Tir

# GALWAD



CREATIVITY IN THE UK



Cymru Greadigol  
Creative Wales

Cynhyrchir GALWAD gan Casgliad Cymru a'i gomisiynu gan Cymru Creadigol fel rhan o 'UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU'.

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB  
33-35 Cathedral Road, Cardiff, CF11 9HB  
029 2025 6767  
[keepwalestidy.cymru](http://keepwalestidy.cymru)  
[info@keepwalestidy.cymru](mailto:info@keepwalestidy.cymru)

